**Y GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR GYMUNEDAU DIWYDIANNOL**

**Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ddydd Mercher, 5 Chwefror 2020, yn Ystafell Briffio'r Cyfryngau, y Senedd, Bae Caerdydd**.

## 1. Yn bresennol

Vikki Howells AC (Cadeirydd); Peter Slater, Cynghrair y Cymunedau Diwydiannol Cymru; Steve Fothergill, Prifysgol Sheffield Hallam a Chynghrair y Cymunedau Diwydiannol; Lisa Jones, CBS Pen-y-bont ar Ogwr; Andrew Collins, CBS Castell-nedd Port Talbot; Y Cynghorydd Gareth Jones, CBS Rhondda Cynon Taf; Y Cynghorydd Jayne Brencher, CBS Rhondda Cynon Taf; Robin Lewis, AMSS, Vikki Howells AC; Ioan Bellin, swyddfa Helen Mary Jones AC; Wayne Thomas Undeb Cenedlaethol y Glowyr; Mick Antoniw AC; Y Cynghorydd Graham Thomas, CBS Rhondda Cynon Taf; Michelle Rowson-Woods, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo; Maureen Howell, Llywodraeth Cymru, Tasglu'r Cymoedd; Y Cynghorydd Phillip Edwards, CBS Blaenau Gwent; Y Cynghorydd John Morgan, CBS Blaenau Gwent; Alun Taylor, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo; Alex Still, Swyddfa Hefin David AC; Lloyd Jones, Sefydliad Bevan.

## 2. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd David White, CBS Pen-y-bont ar Ogwr; Kirsty Williams AC; Ieuan Sherwood, CBS Pen-y-bont ar Ogwr.

## 3. Croeso

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan Vikki Howells AC, ac eglurodd y byddai'r busnes ffurfiol sy'n gysylltiedig â'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn cael ei gynnal cyn y brif agenda.

## 4. Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2019.

## 5. Ethol Cadeirydd

Ail-etholwyd Vikki Howells AC yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Gymunedau Diwydiannol.

## 6. Ethol Ysgrifennydd

Cafodd Peter Slater, Cyfarwyddwr Cynghrair y Cymunedau Diwydiannol Cymru, ei ethol yn ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Ysgrifennydd blaenorol, Ged Mchugh, am ei gyfraniad i'r grŵp yn ystod ei gyfnod.

**7. Adroddiad Ariannol**

Cafwyd wybod gan yr Ysgrifennydd bod Cynghrair y Cymunedau Diwydiannol wedi mynd i gostau o £123.48 ar gyfer gwasanaethau arlwyo yn ystod y flwyddyn. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, talwyd costau cefnogi'r Grŵp Trawsbleidiol gan Gynghrair y Cymunedau Diwydiannol fel rhan o'i weithgareddau arferol.

**8. Diweddariad ynghylch Aelodaeth**

Nodwyd mai'r bobl ganlynol yw aelodau presennol y grŵp: Vikki Howells AC, Cadeirydd.; Dawn Bowden AC; Suzy Davies AC; Lynne Neagle AC; Huw Irranca-Davies AC; Y Cynghorydd David White, CBS Pen-y-bont ar Ogwr a Chadeirydd, Cyngor y Cymunedau Diwydiannol Cymru; Peter Slater, Ysgrifennydd ac ICA Cymru.

**9. Cyflwr y Meysydd Glo: Amodau Economaidd a Chymdeithasol ym Maes Glo Lloegr, yr Alban a Chymru; Cyflwyniad gan yr Athro Steve Fothergill, Prifysgol Sheffield Hallam.**

Dechreuodd yr Athro Fothergill ei gyflwyniad gyda chefndir byr i'r adroddiad, wnaeth ddechrau gyda chais gan Grŵp Hollbleidiol Seneddol Cymunedau Glofaol San Steffan am dystiolaeth ar gyflwr presennol y meysydd glo ac, yn sgîl hynny, 'cais' cyfoes am gymryd camau. Cafodd y cyfarfod wybod fod Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, yn dilyn hynny, wedi comisiynu diweddariad o adroddiad '*State of the Coalfields*' Prifysgol Sheffield Hallam, gafodd ei lansio yn San Steffan ym mis Hydref 2019, ynghyd â '*Ten Priorities for the Former Coalfields*.'

Gan symud ymlaen at yr adroddiad, pwysleisiodd yr Athro Fothergill fod cyn feysydd glo yn cyfrif am bron i 10% (5.7m) o boblogaeth Prydain Fawr, tra'r oedd y ffigur yn agosach at 25% yng Nghymru (786,000). O ganlyniad, cymaint yw graddfa'r meysydd glo, o'u dwyn ynghyd byddent yn gyfwerth â rhanbarth yndi'i hun ac yn ôl pob tebyg byddai'r ystadegau'n dangos mai honno yw rhanbarth fwyaf ddifreintiedig y DU.

Cafodd y cyfarfod wybod fod y pwyntiau allweddol sy'n deillio o'r dadansoddiad yn dangos y tueddiadau canlynol ym Maes Glo De Cymru:

- Mae poblogaeth y meysydd glo yn hŷn na'r cyfartaledd ac yn tyfu'n arafach nag mewn mannau eraill –1.5% o'i gymharu â 2.5% mewn meysydd glo eraill. At hynny, mae llai o bobl o oedran gweithio wedi'u geni'r tu allan i'r DU – 4% o'u cymharu â 45% yn Llundain.

- Mae problemau iechyd yn parhau i fod yn eang gyda 11.2% (86,000) o'r boblogaeth yn hawlio Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Personol, ac mae hynny bron i ddwbl cyfradd Prydain Fawr, sef 5.8%.
- Dim ond 0.2% fu twf swyddi yn y maes glo o'i gymharu â 6.6% ar gyfer Prydain Fawr, a byddai codi cyfradd cyflogaeth Maes Glo De Cymru i gyfradd De-ddwyrain Lloegr yn gofyn am gael 38,000 o bobl ychwanegol mewn gwaith.
- Mae dwysedd swyddi hefyd yn isel, sef 42 swydd i bob 100 o drigolion, o’i gymharu â 73 ar gyfer y DU gyfan a chyfartaledd o 55 ar gyfer ardaloedd meysydd glo.
- Mae cyflogaeth ym maes gweithgynhyrchu yn uwch na'r cyfartaledd ac er bod warysau wedi bod yn ffynhonnell bwysig o dwf mewn swyddi mewn ambell ardal, nid cymaint felly yn ne Cymru.
- Mae hunangyflogaeth yn is na'r cyfartaledd ac mae enillion hefyd yn gyson is na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Er bod y gyfradd ddiweithdra yn gymharol isel, nid yw hynny’n adlewyrchu'r niferoedd ar fudd-daliadau, sy'n cyfrif am 1 o bob 10 o'r boblogaeth. At hynny, disgwylir i ddiwygio lles arwain at golled o £770 fesul oedolyn o oedran gweithio.
- At ei gilydd, mae 42% o gymdogaethau meysydd glo ymhlith y 30% o’r cymdogaethau mwyaf difreintiedig ym Mhrydain, tra mai 52% yw’r gyfran yng Nghymru.

I gloi, pwysleisiodd yr Athro Fothergill fod y meysydd glo, yn ôl yr ymchwil, yn parhau i fod ar ei hôl hi o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, ac yn waeth na rhannau eraill o’r wlad o ran iechyd, cyfoeth a gwendid eu heconomïau. At hynny, er iddynt fod ar eu hennill yn sgîl y gwelliant economaidd, roedd cyfradd yr adferiad yn arafach. Yr hyn sy'n arbennig o nodedig, fodd bynnag, yw'r casgliad diamheuol bod perfformiad De Cymru wedi bod yn waeth na meysydd glo eraill, a’i bod yn ei chael yn anodd yn ôl y rhan fwyaf o ddynodyddion. Awgrymodd yr Athro Fothergill fod esboniadau posibl am hyn yn ymwneud â materion fel hygyrchedd ac effaith cymoedd ar farchnadoedd llafur.

O ystyried y ffaith bod llawer o ardaloedd meysydd glo yn parhau i fod ar ei hôl hi, ailbwysleisiodd yr Athro Fothergill yr achos dros flaenoriaethu gwariant ar adfywio yn yr ardaloedd hyn, gan amlinellu'r deg blaenoriaeth fel a ganlyn: Ffynhonnell yn amnewid am gyllid yr UE; cefnogaeth ar gyfer diwydiant; swyddi o safon uwch; buddsoddi mewn addysg, sgiliau a iechyd; twf y tu hwnt i’r dinasoedd mawr; buddsoddi mewn cysylltedd lleol; awdurdodau lleol â’r gallu i gyflawni; cefnogaeth ar gyfer isadeiledd cymunedol ailbwysoli’r hyn a werir ar ddiwylliant, y celfyddydau a chwaraeon; bargen well ar warged cronfa bensiwn glowyr.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Athro Fothergill am ei gyflwyniad a chadarnhaodd, o ganlyniad i gael ei dewis ar gyfer dadl fer y mis nesaf,

y byddai’n gwneud defnydd o’r adroddiad diweddaraf hwn ar y meysydd glo. Cafwyd trafodaeth eang i ddilyn oedd yn cynnwys cyfeiriadau (Vikki Howells AC) at y ffi tagfeydd arfaethedig ar gyfer Caerdydd a’i effaith ar gymudwyr o’r cymoedd, a natur swyddi yn y dyfodol (y Cynghorydd Jayne Brencher) a rôl arloesedd. Galwyd hefyd am fwy o ymyrraeth gan y llywodraeth (y Cynghorydd Graham Thomas) ar faterion fel cymorth gwladwriaethol ac ailddosbarthu cyfoeth, tra cyfeiriwyd at faterion yn ymwneud ag enillion yng nghyd-destun y Mesur Partneriaeth Gymdeithasol sydd ar ddod (Mick Antoniw AC). Ymhlith y materion eraill a godwyd oedd rôl yr economi sylfaenol (Lloyd Jones, Sefydliad Bevan), trafnidiaeth gyhoeddus (y Cynghorydd Gareth Jones) a rôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol wrth fesur anghydraddoldebau rhanbarthol (Vikki Howells AC).

O ganlyniad i’r drafodaeth a'r cyflwyniad, cytunwyd i geisio cyfarfod gyda Lee Waters AC, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth a Chadeirydd Tasglu'r Cymoedd, i ystyried casgliadau'r adroddiad *State of the Coalfields*.

**10. Y cyfarfod nesaf**

Cynigiodd y Cadeirydd y dylid cynnal y cyfarfod nesaf cyn toriad yr haf. Ymhlith y pynciau posibl i’w trafod oedd y Gronfa ffyniant Gyffredin a dosbarthu buddsoddiad Ymchwil a Datblygu ar sail rhanbarthol.

**Peter Slater**
**Ysgrifennydd a Cyfarwyddwr Cynghrair Cymunedau Diwydiannol Cymru.**